menter caerdydd

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

# DATGANIAD I'R WASG

Tachwedd 2017

Cyswllt:
Eryl Jones / Cadeirydd - eryl@equinox.cymru
07702 359495

## Prif Weithredwr newydd i Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg

Mae Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg yn falch o gyhoeddi bod Manon Rees-O'Brien wedi'i phenodi fel eu Prif Weithredwr newydd.  Bydd yn olynu Siân Lewis sydd wedi'i phenodi yn Brif Weithredwr yr Urdd.

Yn wreiddiol o Ddinbych, mae Manon yn gweithio i Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd ac yn arwain y berthynas rhyngddynt âg Undeb Rygbi Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl droed Cymru.  Gyda gradd mewn Economeg o Brifysgol Aberystwyth, dechreuodd ei gyrfa yn y byd ariannol cyn i'r cyfle ddod i gyfuno dau angerdd, sef 'chwaraeon' a 'Chymru' gyda Chwaraeon Cymru.

Yn ystod yr un mlynedd ar bymtheg yn gweithio i Chwaraeon Cymru bu Manon yn gweithio mewn amryw o adrannau gan ddatblygu ystod eang o sgiliau a phrofiad.

Dywed Manon; "Mae'n fraint ac anrhydedd i gael fy mhenodi fel Prif Weithredwr Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio'n agos gyda staff a gwirfoddolwyr angerddol ac ymroddedig y mudiadau er mwyn parhau i gynnig cyfleoedd a chyflogaeth i ehangu a hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau."

Wrth gyhoeddi'r newyddion dywedodd Eryl Jones, Cadeirydd Menter Caerdydd; "Mae'n bleser cael croesawu Manon fel ein Prif Weithredwr newydd a rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i weithio gyda hi i ddatblygu gwaithgareddau ar drothwy dathliadau 20 mlynedd y Fenter yn 2018."

Wrth dalu teyrnged i Ms Lewis ychwanegodd Mr Jones: "Hoffwn ddiolch yn fawr i Siân, Prif Weithredwr y Fenter am ei hymrwymiad a'i hegni yn ystod ei hamser yn arwain y Fenter. Trwy sgiliau arweinyddiaeth Siân mae hi a'r tîm wedi cyflawni gymaint dros y blynyddoedd, bu'n bleser gweithio gyda hi a dymunwn ni i gyd y gorau iddi yn y dyfodol."

Bydd Manon yn dechrau yn ei swydd fel Prif Weithredwr Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg yn swyddogol ar Chwefror 1af 2018.